



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2016 Rhif 453 (Cy. 144)**

**2016 No. 453 (W. 144)**

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

## **ROAD TRAFFIC, WALES**

**Rheoliadau Personau Anabl  
(Bathodynau ar gyfer Cerbydau  
Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016**

**The Disabled Persons (Badges for  
Motor Vehicles) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2016**

### **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

### **EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae bathodyn parcio person anabl (a elwir yn “Bathodyn Glas”) yn galluogi’r deiliad i fanteisio ar nifer o gonsesiynau parcio ac esemptiadau rhag taliadau penodol sy’n gymwys i fodurwyr eraill. Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 (“y Prif Reoliadau”) yn gwneud darpariaeth am roi bathodynau gan awdurdodau lleol.

A disabled person’s parking badge (known as a “Blue Badge”) enables the holder to benefit from a range of parking concessions and exemptions from certain charges which apply to other motorists. The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000 (“the Principal Regulations”) make provision regarding the issue of badges by local authorities.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Prif Reoliadau i ddarparu disgrifiad o bersonau anabl sy’n cynnwys personau ag anabledd dros dro ond sylweddol, y mae disgwyl iddo gael effaith ar eu symudedd am ddeuddeng mis o leiaf.

These Regulations amend the Principal Regulations to provide a description of disabled persons that captures people with a temporary but substantial disability that is expected to affect their mobility for at least twelve months.

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio rheoliad 4 o’r Prif Reoliadau i fewnosod disgrifiad newydd o bersonau anabl sy’n cynnwys personau sydd dros 2 flwydd oed ac sydd ag anabledd dros dro ond sylweddol. Rhaid bod y person yn analluog i gerdded, neu’n cael anhawster sylweddol i gerdded oherwydd yr anabledd a rhaid bod disgwyl i’r anabledd bara am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf.

Regulation 2(2) amends regulation 4 of the Principal Regulations to insert a new description of disabled persons that includes people who are more than 2 years old and who have a temporary but substantial disability. The person must be unable to walk, or have considerable difficulty in walking because of the disability and the disability must be expected to last for at least twelve months.

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 6 o’r Prif Reoliadau i ddarparu’r cyfnod y mae bathodynau i gael eu rhoi i bersonau ag anableddau dros dro. Blwyddyn yw’r cyfnod rhoi.

Regulation 2(3) amends regulation 6 of the Principal Regulations to provide the period for which badges are to be issued to people with temporary disabilities. The period of issue is one year.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Drafnidiaeth, Adeiladau’r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Transport Division, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2016 Rhif 453 (Cy. 144)**

**2016 No. 453 (W. 144)**

**TRAFFIG F FYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

**Rheoliadau Personau Anabl  
(Bathodynnau ar gyfer Cerbydau  
Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016**

**The Disabled Persons (Badges for  
Motor Vehicles) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2016**

*Gwnaed* 29 Mawrth 2016  
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 30 Mawrth 2016  
*Yn dod i rym* 1 Hydref 2016

*Made* 29 March 2016  
*Laid before the National Assembly for Wales*  
30 March 2016  
*Coming into force* 1 October 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970(1), a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru(2), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970(1), transferred to the National Assembly for Wales(2) and now vested in them(3), make the following Regulations.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, application and commencement**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 1 Hydref 2016.

1.—(1) The title of these Regulations is the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 and they come into force on 1 October 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Diwygio'r Rheoliadau**

**Amendment of Regulations**

2.—(1) Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(4) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

2.—(1) The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(4) are amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(1) 1970 p. 44. Diwygiwyd adran 21, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru, gan adran 146 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p. 27), a pharagraff 11 o Atodlen 13 iddi, ac adran 35 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), ac Atodlen 8 iddi.  
(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo.  
(3) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.  
(4) O.S. 2000/1786 (Cy. 123); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2011/1588 (Cy. 183), 2012/309 (Cy. 50), 2013/438 (Cy. 54) a 2014/3082 (Cy. 306).

(1) 1970 c. 44. Section 21, so far as it relates to Wales was amended by the Road Traffic Regulation Act 1984 (c. 27) section 146, Schedule 13 paragraph 11 and the Road Traffic Act 1991 (c. 40) section 35, Schedule 8.  
(2) Powers of the Secretary of State under section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).  
(3) Powers of the National Assembly for Wales under section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).  
(4) S.I. 2000/1786 (W. 123); relevant amending instruments are S.I. 2011/1588 (W. 183), 2012/309 (W. 50), 2013/438 (W. 54) and 2014/3082 (W. 306).

(2) Yn rheoliad 4 (disgrifiadau o bersonau anabl)—

(a) ar ddiwedd paragraff (2)(e) yn lle'r atalnod llawn rhodder hanner colon;

(b) ar ôl paragraff (2)(e) mewnosoder—

“(f) yn analluog i gerdded neu'n cael anhawster sylweddol i gerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol y mae disgwyl iddo bara am gyfnod o 12 mis o leiaf.”

(3) Yn rheoliad 6 (ffi am roi bathodyn a chyfnod y rhoi)—

(a) yn lle paragraff (4)(c) rhodder—

“(c) i berson sy'n dod o fewn y disgrifiad a bennir yn rheoliad 4(2)(f), am gyfnod o flwyddyn sy'n dechrau gyda'r dyddiad rhoi;”;

(b) ar ôl paragraff (4)(c) mewnosoder—

“(ch) i berson nad yw'n dod o fewn is-baragraffau (a), (b) neu (c) am gyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau gyda'r dyddiad rhoi.”

(2) In regulation 4 (descriptions of disabled persons)—

(a) at the end of paragraph (2)(g) for the full stop substitute a semi-colon;

(b) after paragraph (2)(g) insert—

“(h) is unable to walk or has considerable difficulty walking by reason of a temporary but substantial disability which is expected to last for a period of at least 12 months.”

(3) In regulation 6 (fee for issue and period of issue of a badge)—

(a) for paragraph (4)(c) substitute—

“(c) to a person falling within the description specified in regulation 4(2)(h), for a period of 1 year, beginning with the date of issue;”;

(b) after paragraph (4)(c) insert—

“(d) to a person not falling within subparagraph (a), (b) or (c) for a period of 3 years beginning with the date of issue.”

*Edwina Hart*

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a  
Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru  
29 Mawrth 2016

©Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Economy, Science and Transport, one of  
the Welsh Ministers  
29 March 2016

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2016 Rhif 453 (Cy. 144)**

**2016 No. 453 (W. 144)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Rheoliadau Personau Anabl  
(Bathodynnau ar gyfer Cerbydau  
Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016

The Disabled Persons (Badges for  
Motor Vehicles) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2016

£4.25

W2670/04/16

ON

ISBN 978-0-348-11311-2



9 780348 113112